

# Safleoedd Rheoli Ffiniau yng Nghymru

## Gwybodaeth Gefndir

Rhagfyr 2021



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

### Model Gweithredu Ffiniau'r Deyrnas Unedig:

Mae [Cynllun Gweithredu'r Ffin](#) (BOM), a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2020 ac a ddiweddarwyd ym mis Medi 2021, yn amlinellu trefniadau Llywodraeth y DU ar gyfer mewnfurion ac allforion ar ôl i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd a diwedd y cyfnod pontio. Mae'r trefniadau newydd ar y ffin a nodir yn y BOM yn gyfuniad o swyddogaethau datganoledig Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU a gadwyd yn ôl ac yn cynnwys nifer o asiantaethau, seilwaith a systemau newydd, a galluoedd newydd.

Mae rhan o'r BOM yn cynnwys 'gofynion ychwanegol' ar gyfer mewnfurion nwyddau penodol o'r UE. Mae'r rhain yn ymwneud â nifer o gyfrifoldebau datganoledig, megis rheolaethau Iechydol a Ffytioiechydol (SPS). Mae'r rhain yn fesurau sy'n diogelu bioddiogelwch y DU ac yn cynnwys gwiriadau ar fewnfurion anifeiliaid, planhigion a chynhyrchion sy'n tarddu o anifeiliaid. Mae'r gwiriadau hyn yn sicrhau iechyd y cyhoedd, lles anifeiliaid ac yn rheoli clefydau rhywogaethau goresgynnol.

Bydd y gofynion ychwanegol ar gyfer mewnfurion yn cael eu gweithredu yn unol â dull gweithredu fesul cam, er mwyn caniatáu amser i sefydlu'r seilwaith angenrheidiol, a elwir yn Safleoedd Rheoli Ffiniau, ar leoliadau mynediad i Brydain Fawr. Bydd y mesurau'n cael eu cyflwyno ar gyfer amrywiol nwyddau mewn gwahanol gamau.

### Cyfnodau Allweddol ar gyfer Cyflwyno Gwiriadau ar y Ffin

Amlinellir y dyddiadau ar gyfer cyflwyno gwiriadau newydd ar y ffin isod. Yn ddiweddar, mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi oedi cyn cyflwyno'r camau hyn:

- Bydd y gofyniad i roi rhag-hysbysiad am fewnfurion bwyd-amaeth yn cael ei gyflwyno ar 1 Ionawr 2022 yn hytrach na'r 1 Hydref 2021.
- Bydd y gofynion newydd ar gyfer Tystysgrifau Iechyd Allforio, a oedd i fod i gael eu cyflwyno ar 1 Hydref 2021, yn cael eu cyflwyno ar 1 Gorffennaf 2022.
- Bydd Tystysgrifau Ffytioiechydol a gwiriadau ffisegol ar nwyddau SPS ar Safleoedd Rheoli Ffiniau, a oedd i gael eu cyflwyno ar 1 Ionawr 2022, yn cael eu cyflwyno ar 1 Gorffennaf 2022.

### Beth yw Safle Rheoli Ffiniau?

Mae Safle Rheoli Ffiniau yn safle arolygu mewnfurion sydd wedi'i leoli ar borthladdoedd presennol neu'n agos atynt, sydd wedi'u dynodi a'u cymeradwyo gan yr awdurdod cymwys i gynnal gwiriadau ar nwyddau SPS gan gynnwys anifeiliaid, cynhyrchion anifeiliaid, planhigion, cynhyrchion planhigion a phren sy'n cyrraedd ffin Prydain Fawr. Mae'r gwiriadau hyn yn eu lle i ddiogelu iechyd anifeiliaid a'r cyhoedd, lles anifeiliaid a rheoli chlefydau.

Oherwydd bod Prydain Fawr yn gadael undeb tollau'r UE lle roedd pobl a nwyddau'n symud yn rhwydd, bydd gwiriadau mewnfurion SPS yn cael eu cyflwyno gam wrth gam fesul grŵp nwyddau o 1 Gorffennaf 2022 hyd Tachwedd 2022 ar gyfer

# Safleoedd Rheoli Ffiniau yng Nghymru

## Gwybodaeth Gefndir

Rhagfyr 2021



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

cynhyrchion anifeiliaid, cynhyrchion planhigion a phlanhigion. O 1 Gorffennaf 2022 bydd gwiriadau anifeiliaid byw yn trosglwyddo o'r man cyrchfan i safleoedd rheoli ffiniau pan fydd cyfleusterau yn barod ac yn ddynodedig.

Yng Nghymru, ni fydd cyfleusterau BCP parhaol ar waith erbyn mis Gorffennaf 2022 ac mae Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar gyflwyno cyfleusterau dros dro a fydd yn caniatáu i nwyddau barhau i lifo drwy'r porthladdoedd. Bydd hyn yn sicrhau bod y gwiriadau angenrheidiol yn cael eu cynnal i gyfyngu'r risg i fioddiogelwch a diogelwch bwyd.

Mae'r rheol hon eisoes yn berthnasol i'r anifeiliaid a'r nwyddau hynny sy'n dod o wledydd y tu allan i'r UE, y cyfeirir ati weithiau fel masnach Gweddill y Byd.

I'w ddynodi gan yr awdurdod cymwys i gynnal gwiriadau a gosod nwyddau i'r wlad, rhaid i'r Safleoedd Rheoli Ffiniau gydymffurfio â gofynion penodol ar gyfleusterau, offer a staff. Er enghraifft, rhaid i BCP gael:

- nifer digonol o staff â chymwysterau addas
- safleoedd a chyfleusterau sy'n briodol i natur a chyfaint y llwythi
- offer i alluogi gwiriadau, gan gynnwys offer TG
- mynediad i labordai swyddogol
- trefniadau ar waith i atal y risg o groeshalogi a chydymffurfio â safonau bioddiogelwch

Nodir y gofynion hyn yn unol â deddfwriaeth gan yr UE a gadwyd yn ôl [Erthygl 64\(3\) o Reoliad \(UE\) 2017/625 ar reolaethau swyddogol \(OCR\)](#).

Er mwyn cydymffurfio â safonau bioddiogelwch, rhaid i Safle Rheoli Ffiniau hefyd fodloni gofynion penodol ar gyfer:

- safleoedd dadlwytho
- ystafelloedd/ardaloedd arolygu
- cyfleusterau storio
- ystafelloedd newid

Nodir y gofynion hyn yn [Rheoliad y Comisiwn 2019/1014](#).

### **Pam mae Llywodraeth Cymru yn Datblygu Safleoedd Rheoli Ffiniau?**

Heb gyfleusterau Safle Rheoli Ffiniau dynodedig, ni ellir mewnfario'r math perthnasol o nwyddau yn y porthladd hwnnw a allai arwain at golli masnach. Nid yw pob porthladd yn mewnfario'r ystod lawn o nwyddau SPS (er enghraifft, ychydig o borthladdoedd sy'n gallu mewnfario anifeiliaid byw ar wahân i anifeiliaid anwes). Yng Nghymru, mae Caergybi a phorthladdoedd yn Ne-orllewin Cymru ar hyn o bryd yn mewnfario rhyw fath o nwyddau SPS.

Fel arfer, byddai'r buddsoddiad mewn cyfleusterau Safle Rheoli Ffiniau yn benderfyniad buddsoddi masnachol ar gyfer porthladdoedd sydd â chyfrifoldeb y

# Safleoedd Rheoli Ffiniau yng Nghymru

## Gwybodaeth Gefndir

Rhagfyr 2021



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Llywodraeth (Llywodraeth y DU yn Lloegr a Gweinidogion Cymru yng Nghymru) yn gyfyngedig i ddynodi'r cyfleusterau (gan sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r OCR).

Mae'r BOM yn nodi dull Llywodraeth y DU o gyflwyno trefn wirio ar gyfer nwyddau SPS sydd wedi dod o'r UE, gan gynnwys yr ymrwymiad, lle na ellid darparu ar gyfer cyfleusterau o fewn ffin y porthladd, y byddai cyfleusterau mewndirol yn cael eu darparu gan y Llywodraeth. Roedd hyn yn berthnasol i Eurotunnel, porthladd Dover, Caerhybi, Doc Penfro, Abergwaun a phorthladd Cairnryan yn yr Alban.

### Beth sy'n cael ei Wirio mewn Safle Rheoli Ffiniau?

Cynhelir gwiriadau ar gyfran o'r nwyddau SPS sy'n dod i Brydain Fawr o'r UE. Mae nwyddau SPS yn cynnwys anifeiliaid byw, cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid, planhigion, cynhyrchion planhigion a phren.

**Gwiriadau Dogfennol:** bydd y rhain yn gyfuniad o wiriadau ffisegol ac o bell gan gynnwys elfennau fel manylion mewnforyr, gwybodaeth am lwythi, diben symud, gwybodaeth am borthladdoedd, gwybodaeth ategol (e.e. Ardystio Iechyd Allforio), p'un a ganiateir mewnforyr ai peidio, ac mae angen unrhyw farciwyr hysbys i awgrymu ID/arolygiad corfforol.

**Gwiriadau Adnabod:** mae'r rhain yn cynnwys gwirio cynnwys gwaith papur paru cerbydau, gwiriad selio'r tollau neu ofynion gwirio mwy manwl, a gwirio'r stampiau, marciau swyddogol, labelu swyddogol, a / neu farciau iechyd/adnabod ar y cynnyrch neu ei becynnu.

**Gwiriadau Ffisegol:** yn cynnwys gwirio a yw'r gadwyn oer wedi'i chynnal wrth gludo, deunydd lapio/pacio yn gyfan, amodau trafndiaeth addas, a labelu cywir. Arolygiad organoleptig (arogl, lliw). Profion corfforol neu gemegol syml (e.e. torri, dadmer, coginio). Profion labordy – microbiolog ac ati oddi ar y safle.

Er y gellir cynnal gwiriadau dogfennol o bell ar y cyfan, bydd angen rhai gwiriadau ffisegol, ac mae angen cynnal y rhain mewn Safle Rheoli Ffiniau i gydymffurfio â'r rheoliadau. Disgwylir i'r gwiriadau ffisegol hyn gynnwys sampl fach o nwyddau SPS yn unig (ac ni fydd cerbydau sy'n cario nwyddau nad ydynt yn nwyddau SPS yn destun gwiriadau mewn Safle Rheoli Ffiniau).

Caiff safonau eu cytuno a'u gosod ar lefel y DU mewn cydweithrediad â gwahanol weinyddiaethau ac asiantaethau'r Llywodraeth, megis y pedwar Prif Swyddog Milfeddygol a'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (Cymru a Lloegr).

**Mae'r staff arolygu yn cynnwys:**

# Safleoedd Rheoli Ffiniau yng Nghymru

## Gwybodaeth Gefndir

Rhagfyr 2021



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

- Yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (corff yng Nghymru a Lloegr) yn gwirio anifeiliaid a phlanhigion byw ac yn gorfodi gwiriadau o fewn y Safle Rheoli Ffiniau.
- Mae'r Awdurdod Lleol yn gwirio pysgod, Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid a Bwyd a Bwyd Anifeiliaid Risg Uchel Nad ydynt o Darddiad Anifeiliaid
- Mae'r Awdurdod Lleol hefyd yn ymgymryd â gwaith cefnogol y tu allan i'r Safle Rheoli Ffiniau (e.e. cymryd camau gorfodi)
- Mae'r Comisiwn Coedwigaeth yn gwirio cynhyrchion pren a choedwigaeth
- Canolfan gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu (CEFAS) yn gwirio pysgod addurnol.